

'PEIDIWCH Â DAL YN ÔL'



Pontio i oedolaeth yn achos pobl ifanc sydd ag **anableddau dysgu**

Adolygiad cyflym o dystiolaeth

gan Dr Axel Kaehne a'i gyfoedion o Brifysgol Edge Hill

Crynodeb Gweithredol

Mae pontio ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu yn dal yn broses anodd i bawb sy'n ymwneud â hi. Cydnabyddir yn gyffredinol fod pontio'n effeithio ar sawl agwedd ar fywyd ar wahanol adegau: addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â chyflogaeth a thai. Yn gefndir i'r pontio hwn rhwng gwasanaethau mae newidiadau biolegol a datblygiadol pwysig i'r bobl ifanc.

Mae anghenion pobl ifanc ag anableddau dysgu yn ystod y cyfnod pontio yn amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar ddifrifoldeb eu hanabledd, a pha gefnogaeth gymdeithasol sydd ar gael iddynt. Gwnaed cryn dipyn o waith ymchwil a pholisi ym maes pontio i bobl ifanc yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Cynhaliwyd nifer sylweddol o astudiaethau pontio, gan gynhyrchu tystiolaeth dda o anghenion pobl ifanc o ran cyflogaeth, addysg a iechyd a gofal cymdeithasol.

Gofynnodd Comisiynydd Plant Cymru i dîm dan arweiniad Dr Axel Kaehne o Brifysgol Edge Hill gasglu a dadansoddi tystiolaeth oedd eisoes yn bodoli ynghylch pontio i bobl ifanc ag anableddau dysgu mewn pedwar maes gwahanol a oedd, serch hynny, yn gysylltiedig â'i gilydd: addysg, cyflogaeth, iechyd a gofal cymdeithasol a thai.

Bwriad y tîm ymchwil oedd cynnal adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth lwyd a'r llenyddiaeth a gyhoeddwyd a adolygydd gan gymheiriaid, er mwyn casglu gwybodaeth am y pedwar cwestiwn sy'n dilyn:

1. Beth yw anghenion pobl ifanc ag anableddau dysgu yn ystod cyfnodau pontio rhwng darpariaeth sector plant ac oedolion ym meysydd tai, addysg a hyfforddiant, iechyd a gofal cymdeithasol a chyflogaeth?
2. Pa gefnogaeth gadarnhaol i bobl ifanc ag anableddau dysgu a'u rhwydweithiau cymorth sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, a beth sy'n cael ei ystyried yn arfer gorau?
3. Beth yw'r bylchau yn y gefnogaeth sy'n cael ei darparu yng Nghymru ar gyfer y boblogaeth hon, a sut mae ymdrin â hynny?
4. Beth ddylai'r blaenoriaethau fod i CPC o ran gwaith yn y dyfodol ym maes pontio, a beth yw'r ffordd orau o hwyluso hynny gyda'r capasiti presennol yng Nghymru?

'PEIDIWCH Â DAL YN ÔL'



Pontio i oedolaeth yn achos pobl ifanc sydd ag **anableddau dysgu**

Cynhyrchodd yr adolygiad dystiolaeth gadarn ynghylch anghenion pontio pobl ifanc mewn tri maes: addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, a chyflogaeth. Daeth pontio ym maes tai i'r amlwg fel maes lle na wnaed digon o waith ymchwil yng nghyswllt y boblogaeth hon.

Pontio addysgol yw conglfaen cynllunio pontio o hyd yn achos pobl ifanc ag anableddau dysgu, a dyma'r rhan amlycaf o'u profiad pontio. Mae cynllunio pontio yn dechrau tua 14 oed, ac mae nifer o offer datblygedig wedi eu dilysu i hwyluso'r broses o gynllunio pontio mewn ysgolion. Fodd bynnag, ymddengys bod nifer y bobl ifanc sy'n ymwneud â chynllunio pontio mewn gwirionedd trwy brosesau cynllunio person-ganolog yn dal yn isel, ac mae cynlluniau pontio yn aml yn ymdrin â phontio addysgol yn benodol. Mae cynllunio pontio cwbl integredig ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a chyflogaeth yn eithriadol o brin.

Yn achos y rhan fwyaf o bobl ifanc ag anableddau dysgu, mae pontio i gyflogaeth yn digwydd ar ôl bod i'r coleg. Er bod rhai ysgolion yn trefnu lleoliadau gwaith enghreifftiol yn y gymuned, gall colegau nodi lleoliadau sy'n addas neu beidio i bobl ifanc mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Rhwystr arwyddocaol i bontio'n llwyddiannus i gyflogaeth o hyd yw'r ffaith nad yw'r broses bontio statudol yn parhau y tu hwnt i'r graddio o'r coleg yn achos llawer o bobl ifanc ag anableddau dysgu. Mae hynny'n golygu ei fod yn anodd blaengynllunio a datblygu opsiynau cyflogaeth ystyrlon ar gyfer rhai pobl ifanc sydd eisiau gweithio ar ôl y coleg. Serch hynny, mae tystiolaeth gadarn bod cyflogaeth â chymorth, o'i chyflwyno'n effeithiol, yn darparu canlyniadau cyflogaeth da i bobl ifanc ag anableddau dysgu ar bob lefel o weithredu.

Canfu'r adolygiad fod cryn dipyn o dystiolaeth ynghylch pontio cymdeithasol a gofal iechyd pobl ifanc. Teimlir yn gyffredinol fod clinigau ar y cyd gan ddarparwyr gofal iechyd plant ac oedolion yn cael eu hystyried yn rhywbeth cadarnhaol gan bobl ifanc a'u teuluoedd. At ei gilydd, fodd bynnag, darniog yw'r gwasanaethau ym maes pontio, ac mae meini prawf cymhwyster gwahanol yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion yn arwain at leihau gwasanaethau i rai pobl ifanc a gwasanaethau gofal iechyd arbenigol i oedolion sydd heb eu paratoi na'u hariannu'n ddigonol, ac sydd felly'n cael trafferth darparu ar gyfer anghenion penodol y boblogaeth hon. Ar ben hynny, mae darpariaeth iechyd meddwl i bobl ifanc yn parhau'n fwch cyson a difrifol yn y gwasanaeth sydd ar gael i bobl ifanc ag anableddau dysgu. Ymdrinnir â mater dilyniant gofal yn aml trwy gadw oedolion ifanc yng ngwasanaethau plant y GIG, yn arbennig mewn lleoliadau pediatriig arbenigol. Fodd bynnag, mae hynny'n creu anawsterau o ran addasrwydd gwasanaethau a chostau.

Tai yw'r unig faes sydd heb fawr ddim tystiolaeth gadarn a gyhoeddwyd ynghylch trefniadau pontio pobl ifanc ag anableddau dysgu. Gwnaed peth gwaith ymchwil ynghylch lleoliadau y tu allan i'r ardal ac effaith y rheiny ar lwybrau pobl ifanc trwy addysg. Fodd bynnag, nid yw anghenion tai pobl ifanc a sut mae darparu ar gyfer poblogaeth ifanc gynyddol sydd ag anableddau dysgu yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol ar hyn o bryd mewn astudiaethau ymchwil a gwerthuso.

Mae'r ymchwilwyr yn nodi'r bylchoedd mewn tystiolaeth, sy'n bwyntiau defnyddiol i ystyried i ymchwilwyr a'r Llywodraeth:

'PEIDIWCH Â DAL YN ÔL'



Pontio i oedolaeth yn achos pobl ifanc sydd ag **anableddau dysgu**

- Gwerthuso effaith strategaeth anghenion dysgu ychwanegol Cymru ar gynllunio pontio a chanlyniadau pontio i bobl ifanc
- Sicrhau a dadansoddi data ynghylch canlyniadau pontio/cyrchfannau pobl ifanc ag anableddau dysgu yng Nghymru
- Archwilio'r rhwystrau sy'n atal pob person ifanc ag AD rhag cael eu cynnwys yn eu cynlluniau pontio yn yr ysgol ac mewn colegau AB
- Sicrhau data cenedlaethol ynghylch cyrchfannau a chanlyniadau pontio ymadawyr ysgol a'r rhai sy'n gadael colegau, er mwyn canfod cyfraddau mynediad pobl ifanc i gymorth gyda chyflogaeth
- Archwilio'r ffactorau sy'n hwyluso ac yn rhwystro cynnwys opsiynau cyflogaeth hunan-gyflogedig wrth gynllunio pontio pob person ifanc yn yr ysgol a'r coleg
- Nodi ffyrdd addas o ledaenu arfer gorau o ran cyflogaeth â chymorth ledled Cymru a hwyluso rhannu dysgu yn y maes hwnnw
- Crynhoi data perthnasol ynghylch trefniadau pontio iechyd pobl ifanc ag AD yng Nghymru
- Adolygu'r offer pontio a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol Cymru a darparwyr gofal iechyd, ac asesu eu heffeithiolrwydd
- Casglu a dadansoddi data perthnasol o Gymru ynghylch pontio ym maes tai
- Nodi capasiti'r sector tai i ddarparu cyfleoedd byw â chymorth addas ar gyfer pobl ifanc, yn unol â'r galw i'r dyfodol
- Nodi tueddiadau o ran lleoliadau preswyl/y tu allan i'r ardal ar gyfer pobl ifanc sy'n symud o'r ysgol i'r coleg

Gellir darllen copi o'r adroddiad llawn [yma](#).

Gorffennaf 2018